

Sancteiddrwydd – grym sy'n newid

“Byddwch yn drugarog fel y mae eich Tad yn drugarog.” (adn. 36)

Beth am ddarllen Luc 6:27–36 ac yna myfyrio.

Heddiw byddwn yn parhau i fyfyrio ar y gorchymyn rhyfeddol a gyhoeddodd Iesu yn ei Bregeth ar y Mynydd: “Felly byddwch chwi'n berffaith fel y mae eich Tad nefol yn berffaith” (Math. 5:48). Yn fersiwn Luc, ceir yr un syniad, ond mae'r amrywiaeth yn y geirio yn arwyddocaol ac yn cadarnhau y dehongliad a gymerwyd gennym ddoe: “Byddwch drugarog fel y mae eich Tad yn drugarog.”

Pan ddywedodd Iesu'r geiriau hyn gyntaf, mae'n siŵr eu bod yn ymddangos yn bryfoclyd iawn. Siarter cenedlaethol Israel, sy'n cael ei hailadrodd yn aml yn llyfr Lefiticus, oedd “Byddwch sanctaidd, oherwydd yr wyf fi, yr Arglwydd eich Duw, yn sanctaidd.” (Lef. 19:2). Roedd Israel i fod yn bobl arbennig, yn arddangos cymeriad Duw i'r byd. Ond yn amser Iesu, roedd rhai grwpiau crefyddol caeth, fel y Phariseaid ac athrawon y gyfraith, yn dehongli'r alwad hon mewn modd mewdol a dethol. Roedden nhw'n codi ffiniau tynnach o hyd, gan gau allan mwy a mwy o bobl oedd yn 'bechaduriaid' yn eu barn nhw ac felly y tu allan i gylch cariad cyfamod Duw. Dydy Iesu ddim yn gwadu'r alwad i fod yn sanctaidd. Yn hytrach, mae'n dangos nad safon sy'n condemnio pechaduriaid ydy sancteiddrwydd Duw ond grym allanol sy'n newid pechaduriaid. Dydy bod yn sanctaidd ddim yn golygu encilio'n hunangyfiawn oddi wrth haint pechaduriaid, ond yn hytrach ymestyn allan a'u cofleidio. Cawn ein hachub â sancteiddrwydd sy'n condemnio ein pechod ond sydd hefyd yn dyheu am ac yn trefnu ein hiachawdwriaeth.

Ystyriwch hyn heddiw: mae'r gorchymyn i fod yn sanctaidd fel mae Duw yn sanctaidd yn cael ei gyflawni orau wrth i chi fod yn drugarog fel mae eich Tad nefol yn drugarog.

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Deut. 26:16–19; Math. 9:1–13; 12:1–8; Marc 12:28–34; 1 Ioan 1:5–10

Meddylwch am y cwestiynau hyn:

1. O dan ba amodau mae Duw yn ailadrodd ei alwad i Israel?
2. Am beth y cymeradwyodd Iesu'r ysgrifennydd?

Gweddi

O Dad, gwna fi'n debycach i ti. Diolch am ddangos i mi nad encilio oddi wrth bechaduriaid rhag ofn iddynt lygru f'enaid ydy ystyr bod yn sanctaidd, ond yn hytrach mynd i'w canol i'w ceisio ac i'w hachub. Amen.